

Presennol

Y Cyngorydd PA Davies – Cadeirydd

A Hussain
JR McCarthy

RM James
A Williams

B Jones

JE Lewis

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

Kirsty Evans Uwch Swyddog Trwyddedu
Andrea Lee Uwch Cyfreithiwr
Michael Pitman Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau

225. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

226. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD:

Bod Cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu (B) dyddiedig 10 Tachwedd 2020, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

227. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Polisi Trwyddedu, a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacni.

Esboniodd fod cais wedi'i gyflwyno gan James Bickerstaff o Borthcawl, i drwyddedu cerbyd Renault Trafic, rhif cofrestru XF66 XBY, fel cerbyd hacni sy'n eistedd 8 person.

Roedd y cerbyd yn eiddo ail-law ac wedi'i gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 28 Chwefror 2017.

Aeth y Swyddog Polisi Trwyddedu ymlaen, drwy gynghori bod y cais y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd adroddiad gwasanaeth wedi'i gyflwyno ar gyfer 17 Mawrth 2018, gyda'r milltiroedd yn 14,235, a 26 Tachwedd 2020 gyda'r milltiroedd yn 23,483.

Ar 9 Rhagfyr 2020 archwiliodd Swyddog Gorfodi y cerbyd a gwelwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Ceir Ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A. Ar adeg yr arolygiad cofnodwyd y milltiroedd ar 23,692.

Roedd y cais y tu allan i ddarpariaethau Polisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Yna ymddeolodd yr Aelodau i ystyried y mater ymhellach, ac ar ôl iddynt ddychwelyd

PENDERFYNWYD:

Bod yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais i gofrestru YF66 XBY fel Cerbyd Hacni.

Bod yr Aelodau wedi nodi ei fod y tu allan i bolisi 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 o'r polisi, sef yr ansawdd mewnol ac allanol eithriadol a'r safonau diogelwch eithriadol. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

228. CAIS I DRWYDDED CERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Polisi Trwyddedu, a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacni.

Gwnaed cais gan Wayne Griffiths o Faesteg i drwyddedu cerbyd Dacia Logan, rhif cofrestru LV18 PVL, fel cerbyd hacni sy'n eistedd 4 person.

Mae'r cerbyd yn ail-law a chafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ym mis Mehefin 2018.

Mae'r cais y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Nid oes adroddiad gwasanaeth wedi'i gyflwyno gan na roddwyd unrhyw wybodaeth i Mr. Griffiths pan brynodd y cerbyd.

Ar 17 Rhagfyr 2020 archwiliodd Swyddog Gorfodi'r cerbyd a gwelwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Ceir Ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A. Ar adeg yr arolygiad cofnodwyd y milltiroedd ar 42,598.

Roedd y cais y tu allan i ddarpariaethau Polisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Yna ymddeolodd yr Aelodau i ystyried y mater ymhellach, ac ar ôl iddynt ddychwelyd

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais i gofrestru LV18 PVL fel Cerbyd Cerbyd hacni.

Nododd yr Aelodau ei fod y tu allan i bolisi 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 o'r polisi, sef yr ansawdd mewnol ac allanol eithriadol a'r safonau diogelwch eithriadol. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

229. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:20